GBV 78
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
Cyfnod 1
Ymateb gan: Achub y Plant

Save the Children
Achub y Plant

# Ymateb Achub y Plant i'r Ymgynghoriad – Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ymchwiliad i mewn i egwyddorion cyffredinol y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Mary Powell-Chandler, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru m.powell-chandler@savethechildren.org.uk neu**
**Rhian Croke, Swyddog Hawliau a Pholisi Plant, Achub y Plant, Cymru 02920396838 r.croke@savethechildren.org.uk**

**Amdanom Ni**
Mae Achub y Plant yn gweithio mewn mwy na 120 o wledydd. Rydym yn achub bywydau plant. Rydym yn ymladd dros eu hawliau. Rydym yn credu na ddylai unrhyw blentyn gael ei eni heb gyfle i ffynnu a chyflawni ei botensial.

Yn y DU mae Achub y Plant yn gweithio i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn, eu hyrwyddo a'u parchu yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac offerynnau hawliau dynol rhyngwladol eraill. Rydym yn credu na ddylai unrhyw blentyn ddioddef niwed i brofiadau eu plentyndod neu gyfleoedd bywyd o ganlyniad i fyw mewn tlodi.

**Cyd-destun**
Mae Achub y Plant yn ysgrifennu mewn ymateb i'r Bil uchod, gyda ffocws penodol ar gosb gorfforol o fewn y sefyllfa deuluol.

**Pwyntiau allweddol**
Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad cyffredinol y Bil yw creu ffocws cryfach a mwy cyson ar atal trais rhwng aelodau o'r teulu (gan gynnwys rhieni a phlant), diogelu dioddefwyr a chefnogaeth i bawb sydd wedi eu heffeithio ganddynt. Er bod taro plant yn

parhau i fod yn gyfreithiol ni ellir cael dull o gysondeb naill ai wrth atal neu wrth amddiffyn rhag trais a chamdriniaeth.

Dros y degawd diwethaf, fel olynol Lywodraethau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Achub y Plant fel cadeirydd a chydlynydd y Grwp Monitro CCUHP Cymru wedi cefnogi plant yn gyson yn rhoi 'amddiffyniad cyfartal' gerbron y gyfraith. Cafwyd hefyd argymhellion dro ar ôl tro gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn a chyrff Hawliau Dynol eraill i wahardd cosb gorfforol yn y teulu.

Yn 2002, fe nododd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

*"Mabwysiadu deddfwriaeth ar frys ledled y parti Gwladwriaeth i ddileu'r "gosb resymol "a gwahardd pob cosb gorfforol yn y teulu ac mewn unrhyw gyd-destun arall nad yw'n gynwysiedig yn y ddeddfwriaeth bresennol"*

Yn 2008, nododd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn:

*"Gwahardd fel mater o flaenoriaeth pob cosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys drwy ddiddymu amddiffynfeydd cyfreithiol, yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn holl Diriogaethau Tramor a Dibynwledydd y Goron. "*

Mewn memorandwm at Lywodraeth y DU yn dilyn ymweliad ffurfiol yn 2008, mae Cyngor Comisiynydd Ewrop dros Hawliau Dynol, tra'n condemnio'r diffyg cynnydd a wnaed gan Lywodraeth y DU yn croesawu'r gefnogaeth gref a fynegwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol:

*"Fel y dywed cyrff cytuniad hawliau dynol rhyngwladol ac Ewropeaidd, parchu urddas dynol ac integriti corfforol yw sylfaen hawliau dynol. Nid yw cynnal deddf sy'n caniatáu ac yn cyfiawnhau rhywfaint o drais fel cosb neu ddisgyblaeth yn cydffurfio â hawliau dynol. Mae'r ffaith bod plant yn derbyn llai o amddiffyniad o dan y gyfraith droseddol rhag ymosodiad yn ychwanegol wahaniaethol ac yn annirnadwy, gan fod plant yn amlwg yn agored i niwed. Mae'n annirnadwy y byddai unrhyw Aelod-wladwriaeth yn rhoi llai o amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad yn erbyn unrhyw grŵp poblogaeth arall - menywod, pobl ag anableddau, pobl oedrannus. Mae plant yn fwy dibynnol a diamddiffyn mewn perthynas ag oedolion ac angen mwy yn hytrach na llai o amddiffyniad arnynt. "*

Ym mis Mai 2009, fe wnaeth y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ailadrodd argymhelliad 2002, gan ddweud: Mae'r Pwyllgor yn ailddatgan ei argymhelliad bod cosbi plant yn gorfforol yn y cartref yn cael ei wahardd o dan y gyfraith.

Mae'r Pwyllgor Ewropeaidd ar Hawliau Cymdeithasol, sydd yn monitro cydymffurfiaeth y DU gyda Siarter Gymdeithasol Ewrop, wedi cyhoeddi y canlyniadau diweddaraf ar adroddiad y DU yn gynnar yn ystod 2012, gan ateb holl esgusodion y DU yn amyneddgar am beidio â'i wahardd yn llwyr a dod i gasgliadau nad oedd y DU yn cydymffurfio oherwydd ei methiant i gael gwared â'r amddiffyniad "cosb resymol" yn gyfan gwbl.

Yn ystod ail gylch yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y DU yn y Cyngor Hawliau Dynol yng Ngenefa ar 24 Mai, 2012, roedd Llywodraeth y DU o dan bwysau i wahardd cosbi plant yn gorfforol yn y cartref gydag argymhellion o'r Ffindir, Sweden a Hwngari, yn pwysleisio fod rhwymedigaeth hawliau dynol clir i wneud hynny.

Mae Achub y Plant yn credu bod y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn rhoi cyfle gwych i gael gwared â'r amddiffyniad o gosb resymol. Ni all fod unrhyw reswm dros oedi rhag gwneud y diwygiadau yn awr gan fod y Cynulliad yn meddu ar bŵer datganoli i wneud y Bil hwn yn ddeddf. Mae'r diwygiad i gael gwared ar yr amddiffyniad 'cosb resymol' yn glir ac yn gryno.

Mewn perthynas ag ymosodiadau ar blant yng Nghymru, mae'n diddymu adran 58 o Ddeddf Plant 2004.  Deddfwriaeth sifil yw hi ac nid deddfwriaeth cyfiawnder troseddol ac felly nid yw'r dadleuon 'nad yw'r Bil yn Fil cyfiawnder troseddol' yn rhai perthnasol. Ni fyddai'r diwygiad yn cael effaith negyddol ar elfennau eraill o'r Bil ac mae cynghorwyr cyfreithiol y Llywodraeth ei hun wedi dod i'r casgliad bod rhoi amddiffyniad cyfartal i blant o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

Yr ydym yn cymell Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i ddileu'r amddiffyniad o 'gosb resymol' yn unol â'i rwymedigaethau ynghylch hawliau dynol. Mae Plant yng Nghymru wedi aros yn rhy hir i gael amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith ar ymosodiadau.